# Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn

Mae Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn yn brosiect peilot sydd wedi ei leoli ym Mhen Llŷn ac yn esblygiad o waith Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA PLAS). Fe ddatblygwyd y prosiect yn sgîl argymhellion mewn dogfen a luniwyd gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru (Stricking the Balance). Dogfen oedd yn cynnig dull o reoli'r môr fyddai'n gwella ein dealltwriaeth o'r amgylchedd forol, a hyrwyddo adferiad a gwytnwch ecosystemau, heb gael effaith andwyol ar bysgotwyr a chymunedau lleol.

Mae dyheadau'r prosiect a'r modd y caiff ei weithredu yn cael eu cefnogi mewn egwyddor gan ddatblygiadau deddfwriaethol diweddar yng Nghymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016.

**Côd Morol Gwynedd**

Roedd y côd morol ar gyfer defnyddwyr hamdden yng Ngwynedd wedi dyddio felly fe lansiwyd côd newydd gan y prosiect hwn eleni. Yn dilyn llwyddiant proses debyg yng Ngheredigion, cafwyd trafodaethau gyda'r swyddogion perthnasol a chytunwyd i rannu'r un côd rhwng y ddwy sir. Mae hyn wedi osgoi dyblygu gwaith ac yn mynd i gadw cysondeb ar draws y bae. Mae'r côd yn canolbwyntio ar famaliaid morol ac yn amlygu sut i ymddwyn yn gyfrifol ar y môr a pharchu bywyd gwyllt. Gyda chydweithrediad uned forwrol Cyngor Gwynedd, mae'r côd bellach yn cael ei ddosbarthu i bob perchennog cwch neu feic dŵr cofrestredig yn y sir ac mae'r Swyddog Prosiect wedi bod ar y safleoedd lansio yn annog pobl i'w ddilyn. Mae cytundeb mewn lle gydag uned forwrol Ynys Môn i ehangu'r côd i Fôn, a gobeithiwn gyfarfod gyda Chyngor Conwy maes o law i'r un perwyl.

**Ymgyrch Neifion**

Fe lansiwyd yr ymgyrch ar yr 20fed o Fehefin yn Abersoch er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gysylltu â'r awdurdodau os ydynt yn amau fod rhywun yn aflonyddu ar fywyd gwyllt y môr a thorri'r côd. Lansiwyd yr ymgyrch ar y cyd rhwng Aelod Seneddol Dwyfor a Meirionnydd, Liz Saville Roberts**,** Rob Taylor o Uned Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru, y Cynghorydd lleol R H Wyn Williams, a Catrin Glyn o Gyngor Gwynedd. Gwraidd lansio'r ymgyrch oedd adroddiadau fod beicwyr môr yn aflonyddu a phoeni dolffiniaid oddi ar arfordir Abersoch a Thywyn.

**Camau Nesaf**

1. Cystadleuaeth Ysgolion

Fe fyddwn yn cynnal cystadleuaeth rhwng y pum ysgol uwchradd arfordirol yng Ngwynedd (Botwnnog, Glan y Môr, Ysgol Eifionydd, Ysgol Ardudwy, Ysgol Tywyn) yn gofyn iddynt i ddylunio sticer i roi ar gychod a beiciau dŵr, gan hyrwyddo'r côd, ac yn annog y cyhoedd i alw'r heddlu os oes unrhyw un yn amharu ar fywyd gwyllt. Fe fydd briff yn cael ei yrru i'r ysgolion ym mis Medi er mwyn cael y sticeri yn barod ar gyfer 'Blwyddyn y Môr' gan Groeso Cymru.

2. Cynllun Achredu Gwynedd

Hoffai'r  Prosiect Ecosystemau Morol sefydlu cynllun achredu ffurfiol fyddai'n golygu fod busnesau preifat yn cytuno yn ffurfiol i ddilyn ac annog cydymffurfiaeth o'r côd. Byddai'r busnesau yn cynnwys;

- Cychod tripiau a hyfforddwyr chwaraeon dŵr
- Safleoedd lansio Preifat (e.e. Y Waren, Parc Sunny Sands)
- Arwerthwyr cychod a beiciau dŵr

Byddent yn derbyn tystysgrif, a fyddai'n cael ei harddangos yn gyhoeddus ar eu cwch neu siop/safle.

**Yn ddelfrydol, hoffai'r prosiect a'r partneriaethau weithio yn draws sirol, fel ein bod yn archwilio dulliau i ymestyn y gwasanaeth ac i fonitro'r glannau yn well.**